# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 10fed yn Neuadd Coedybryn

**Yn bresennol** Cyng. Osian Davies trwy Teams (Is Gadeirydd)

Cyng. Sian Williams

Cyng. Emyr Jones
Cyng. Mark Davies

Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Rob Jones

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Sharon Thomas , Cyng. Carol Davies, Cyng Llyr Evans. Cyng. Teifi Evans. Cyng. Ceri Jones

**2. Datgan Diddordeb**

Cyng. Emyr Jones – cymydog yw’r person sy’n rhoi cais cynllunio. Cyng. Jones wedi llenwi ffurflen Buddiannau Personol.

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

Cafodd pawb copi o Gofnodion mis Ionawr a chafwyd yn gywir. Cafodd hwn ei gynnig gan Cyng. Mark Davies ac eiliwyd gan Cyng. Sian Williams.

**4. Materion yn codi o’r cofnodion**

4.1 Ma ishe’r clerc gwrso lan newid Mandat y banc ac i fwrw ymlaen i gofrestru bancio ar-lein.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Helen i fwrw ati i ddewis cyrsiau. Helen yn neud un nos Fercher 18.02.26 – Cynefino modiwl 1.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

6.1 Mae trafodaeth yn mynd ymlaen yn Penmorfa ar hyn o bryd ynglyn ar cyllid.

6.2 Mae diwrnod agored arall yn Ffarm Lletytwppa 6.03.26. Buodd y fferm ar rhaglen Ffermio yr wthnos yma.

**7. Gohebiaeth**

7.1 Un Llais Cymru – Agenda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 21.01.26.

Mi wnaeth y Cadeirydd fynychu'r cyfarfod.

7.2 Un Llais Cymru - Gerddi Palas Buckingham

Ateb erbyn 13.02.26.

7.3 Un Llais Cymru - 'What you need to know about Community Boundary Reviews'.

Cyfle i fynychu 'webinar'.

7.4 Gwyn Jones – Ymateb i'r cwestiwn 'gwybodaeth i clerc am yr hawl i lofnodi ar gyfrif banc y Cyngor' – pawb wedi pleidleisio , pawb yn gytun fod y clerc yn gallu fynd ar mandat y banc.

7.5 Un Llais Cymru – Neges wrth Canolfan Dechnoleg Amgen ynglyn a gwahoddiad i 'Byw yn y Dyfodol' ar 21.01.26 o 10.00-15.30.

7.6 Cyngor Sir – Bwletin mis Ionawr - Cynnal y Cardi.

7.7 Un Llais Cymru – Dyddiadau Hyfforddiant.

7.8 Un Llais Cymru – Webinar ar 'Mynd i'r afael a thlodi plant gyda'n gilydd : Camau ymarferol ar gyfer cynghorau lleol' Dydd Mercher 11.02.26 10.00-12.30.

7.9 Un Llais Cymru – Nodyn datblygu Ymarfer ynglyn a Hawlfraint.

7.10 Sarah Johnson – HUTS – cais am gyfraniad ariannol.

7.11 Cyngor Sir – Lansio Ymgysylltu Strategaeth Ieuenctid Ceredigion – Galwad i Weithredu/Launching the Ceredigion Youth Strategy Engagement – call to Action.

7.12 Cyngor Sir – Cais cynllunio A250963 – Cefn Coed, Coedybryn.

7.13 Marie Curie Cymru – Cais am gyfraniad ariannol.

7.14 Cyngor Sir – Bwletin costau byw Ionawr.

7.15 Cyngor Sir – Calendr mis Ionawr.

7.16 Un Llais Cymru – E-bwletin rhif 16.

7.17 Hywel Dda Engagement – Bwrdd Iechyd i benderfynnu ar fodel i'r dyfodol ar gyfer naw gwasanaeth clinigol/Health Board to decide on future model for nine clinical services 18 & 19 February.

7.18 Cyngor Sir – Cod ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ceredigion – ar y 22.01.26 cafodd y cod ymddygiad ei ddiwigio.

7.19 Un Llais Cymru – ATGOFFA o ddigwyddiad ar y cyd – Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru – Mawrth 19 10.30-1.30, £53 yr un.

7.20 Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Ceredigion – cyfarfod nesaf , Nos Iau 9fed o Ebrill yng Nghei Newydd.

7.21 Heddlu Dyfed Powys – Panel Craffu Cymunedol – eisiau gwirfoddolwyr – panel cyntaf ar Chwefror 25 yng Ngwesty Marine, Aberystwyth 4.00 – 7.00.

7.22 Cyngor Sir – Helpwch Siapio dyfodol twristiaeth feicio yng Heredigion – cwblhau arolwg.

7.23 Cynhadledd Gwyl Dewi 2026 – Plismona mewn oes ddigidol – Dydd Mercher 4ydd o Fawrth ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys - angen cofrestru.

7.24 C Ff I Ceredigion – Cais am gyfraniad ariannol.

7.25 Un Llais Cymru – Diwrnod myfyrdod Cenedlaethol COVID 19/COVID 19 National Day of Reflection 2026 – Dydd Sul 8fed o Fawrth.

7.26 Neuadd Rhydlewis – Cwestiynau am y Di-Ffib.

**8. Cyllid**

8.1 Gwnaeth Cyng. Rob Jones a Cyng. Mark Davies arwyddo sieciau i :

Helen Horscroft – Clerc £270.54 , HMRC £67.60, Cyng. Ceri Jones £173.94, Eisteddfod Rhydlewis £100, Neuadd Coedybryn £500, Clwb Pel Droed Ffostrasol £344.76, Neuadd Rhydlewis £265.28, Teifi Thomas £450, Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las £300, Cyng. Sian Wiliams £38.03, Neuadd Coedybryn £60.

**9. Cais Cynllunio A250963 Cefn Coed, Coedybryn**

9.1 Cais am tua 16 o Paneli Solar yng ngaeau Cefn Coed - er mwyn cael ei ddefnyddio yn y ty.

Dim gwrthwynebiad.

**10. Cyfansoddiad**

10.1 I'w drafod yn mis Mawrth.

**11. Critical Bleed Units**

11.1 Daeth Cyng. Maldwyn Lewis mewn a un o'r unedau i bawb cal gweld.

11.2 Pris uned yw £95 yr un.

11.3 Cytunodd pawb fod eisiau prynu 9 uned – 1 uned yn bob bocs di-ffib.

11.4 Byddwn yn holi rhywun o'r cwmni i ddod allan i rhoi hyfforddiant i ni ayb.

**12. Bioamrywiaeth**

12.1 I'w trafod yn mis Mawrth.

**13. Asesiad Risg**

13.1 Cyng. Mark Davies wedi cynllunio Asesiad Risg – y Clerc i newid ambell i beth. Bydd y cynllun yn cael ei trafod 'to mis nesa.

**14. Materion Ardal**

14.1 **Croeslan** – Llongyfarchiadau i C Ff I Pontsian ar ei llwyddiant yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus Saesneg a Chymraeg yn ddiweddar. Pob lwc i holl glybiau C Ff I yng nghystadleuaeth yr hanner awr adloniant yn ystod wthnos hanner tymor – mae 15 o glybiau yn cymryd rhan.

14.2 Mae blwch ffon y pentre wedi mynd.

14.3 Braf gweld bod y lloches bws wedi cal ei glanhau.

14.4 **Penrhiwpal** - Pob lwc i C Ff I Troedyraur sy'n cystadlu wthnos nesa yn cystadleuaeth hanner awr adloniant.

14.5 Mae'r golau ar sgwar Penrhiwpal dal yn fflachio.

14.6 **Ffostrasol** – Ma rhywun wedi tynnu golau stryd bant ger Llysgwyn. Os rhywun wedi dwgin y golau? Eisiau'r clerc rhoi e ar CLIC – guidebook.bridges.sprouted – What 3 Words.

14.7 Mae sbwriel ofnadw ar yr hewl allan o Ffostrasol i Gastell Newydd Emlyn – ar bwys ty Cae'r Gof. Llawer o boteli gwin a cewynnau yn cael ei taflu wrth ochor yr hewl.

14.8 Mae Clwb Pel Droed Ffostrasol yn cynnal nosweth codi arian i Apel Arch Noa ar 7.03.26 yn tafarn y pentref. Tocynnau yn dod allan cyn bo hir am £10.

14.9 **Coedybryn –** Mae Clwb Cwcan Cynllo wedi cal arian i ddathlu Dydd Gwyl Dewi.


14.10 Mae'r hewl i Brongest mewn cyflwr gwael. Llawer o tyllau.

14.11 **Bwlchygroes –** Mae'r gwaith i atal dwr yn y lloches bws wedi gorffen.

**15. Cyfarfod Nesaf**

15.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol, nos Fawrth 3ydd o Fawrth 2026 am 7.30.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.



06.03.26

-------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad